# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 2

Y DRETH SYDD I'W CHODI AR WAREDIADAU TRETHADWY

*Pwysau trethadwy deunydd*

### 20 Pennu pwysau deunydd gan y gweithredwr

(1) Rhaid i weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig bennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy gan ddefnyddio pont bwyso.

(2) Rhaid i'r gweithredwr sicrhau, at ddibenion is-adran (1)—

- (a) bod y deunydd yn cael ei bwyso ar y bont bwyso cyn y gwneir y gwarediad, a
- (b) bod y bont bwyso yn bodloni pob un o'r gofynion mewn deddfwriaeth pwysau a mesurau sy'n gymwys i'r bont bwyso (os oes rhai).

(3) Caiff gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig wneud cais i ACC am gymeradwyaeth i ddefnyddio dull arall i bennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy.

(4) Rhaid i gais—

- (a) cael ei gyflwyno mewn unrhyw fodd,
- (b) cynnwys unrhyw wybodaeth, ac
- (c) cael ei gyflwyno gydag unrhyw ddogfennau,

a bennir gan ACC (naill ai'n gyffredinol neu mewn achos penodol).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 20. (See end of Document for details)*

(5) Pan fo'r gweithredwr yn gwneud cais am gymeradwyaeth—

(a) rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r gweithredwr am ei benderfyniad ar y cais, a

(b) os yw ACC yn rhoi cymeradwyaeth, rhaid i'r hysbysiad nodi manylion y gymeradwyaeth.

(6) Mewn perthynas â chymeradwyaeth—

(a) caiff ymwneud â'r holl warediadau trethadwy y gwneir y cais mewn cysylltiad â hwy, neu â disgrifiadau penodol o'r gwarediadau trethadwy hynny yn unig;

(b) caiff fod yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau;

(c) caniateir ei rhoi am gyfnod penodedig neu am gyfnod anghyfyngedig;

(d) caniateir ei hamrywio neu ei dirymu ar unrhyw adeg drwy ddyroddi hysbysiad i'r gweithredwr.

(7) Os yw ACC yn rhoi cymeradwyaeth i'r gweithredwr ddefnyddio dull arall i bennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy, rhaid i'r gweithredwr—

(a) defnyddio'r dull hwnnw mewn perthynas â'r gwarediad (yn hytrach na'r dull a ddisgrifir yn is-adran (1)), a

(b) gwneud hynny yn unol ag unrhyw amod y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddo.

(8) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth pwysau a mesurau" yw Deddf Pwysau a Mesurau 1985 (p. 72) a rheoliadau a wneir (yn llwyr neu yn rhannol) o dan y Ddeddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 20(1)(2)(7)(8) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**I3** A. 20(3)-(6) mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 20.